Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID GWIRIONEDD CARIAD.

# Yr Ymofynydd

Cyf. 18. Rhif 3.] MAWRTH, 1918. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Dadleuaeth
Maes y Gad. - Ben Davies.
Darllen.
S. O. S.
Jerusalem dan Faner Newydd.
Adolygiad.
Priodas.
Manion ac Hanesion.
Congl yr Awen.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

# YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

**Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.**



**In The Old Meeting House Charity Schools, Dudley, there will be a Vacancy in March for a Unitarian Headmaster.—Applications to be sent to the Rev. E. Glyn Evans, Clee View, Himley Road, Dudley.**

# Mourning Cards . . .

**Neatly executed.**

**A Speciality in Portrait Printing.**

Samples sent on application.

**J. D. LEWIS, YMOFYNYDD OFFICE, LLANDYSSUL.**

# YR YMOFYNYDD.

**Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.**

*"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."*

CYFRES NEWYDD.] MAWRTH, 1918. [CYF. XVIII. RHIF 3.

## DADLEUAETH.

MI a fum ieuanc, yr wyf yn awr yn hen; ond trwy offerynoliaeth y gallu rhyfedd y mae dyn wedi ei ddonio ag ef, yr wyf yn gallu pontio blynyddoedd y gorphenol pell ac i osod ger bron rai o'r digwyddiadau a gymerasant le cyn geni hanner trigolion y byd heddyw. Nid wyf yn cofio fod ynof fi'r un duedd i bregethu pan yn blentyn; ond nid wyf yn cofio'r amser nad oeddwn a'm tuedd i fod yn bregethwr, ac yr wyf wedi bod yn rhyw fath o bregethwr—nid un llwyddiannus iawn, rhaid cyfaddef—am fwy na thriugain mlynedd. Cofiaf frawd bach oedd yn ieuengach na mi, a symudwyd ymaith cyn ei fod yn ddeg oed, ond yr hwn oedd cyn hynny wedi ennill lle helaeth yn nghalonau llawer—ar yr aelwyd gartref, yn yr ysgol, ac yn mhlith ei gyfoedion bychain, trwy fywiogrwydd ei natur, trwy ei wên siriol, a'i barodrwydd gyda phob peth a gymerai ei law i'w wneuthur; ond yr un peth oeddwn am wneud cyfeiriad neillduol ato yn bresennol oedd yr arferiad oedd ganddo i alw ei gyfeillion ieuainc yn nghyd i bregethu iddynt. Pa wers a dynnwn ni oddiwrth beth felly? Mae yna hen ddywediad mai'r plentyn yw tad y dyn. A oes yna ryw ystyr pwysig yn y peth? neu ai chwareu diniwed a diystyr plant yw yr oll? Ni wyr neb beth fuasai pe cawsai fyw. Chwarae plant, onide, gawn ni yn S. Matthew, pennod 11: 16, 17, a phlant annodd eu boddio sydd yn gwrandaw: "Canasom bibell i chwi ac ni ddawnsiasoch; canasom alarnad i chwi, ac ni chwynfanasoch."

* * * * * *

Ond i ddod yn nes at bwnc fy mhenawd, yr wyf yn cofio pan yn talu ymweliad un tro a Benni Bach, Penstar, iddi fynd yn ddadl rhyngom. Ni wn i ddim sut y cododd y ddadl, na pha beth oedd y pwnc; ond gwn na allaswn i ddim fod yn gwybod llawer am unrhyw bwnc y pryd hwnnw, a chredaf hyd heddyw na wyddai Benni Bach

ddim llawer mwy na minnau. Gwn, fodd bynnag, iddo fy ngorchfygu i'n hollol, fel y gorfu i mi fod yn ddistaw a ffoi. Gan nad wyf yn cofio beth oedd y pwnc nid wyf yn cofio chwaith beth a ddywedais; ond yr oedd gan Benni stor ddihyspydd o *munition*, neu foddion dadl, a bwriai hwy ar fy nhraws yn ddidrugaredd. Mi ddwedwn i rywbeth ac atebai Benni: Dyna supralapsariaeth. Mi ychwanegwn eto, a dyna sublapsariaeth, ac felly yn y blaen o hyd; yr oedd yn amlwg yn rhywbeth cas—Antinomiaeth, Pelagiaeth, Arminiaeth, Ariaeth, ac i ddefnyddio hoff air y Dr. Thomas Rees, Abertawe, "neu rywbeth gwaeth!" Pe byddai Benni byw heddyw, ni wn i ddim llai na allai, gyda'r fath arfau beri i fyddinoedd y gelyn ffoi. Ffoi wnes i, ac ni thelais ymweliad ag ef am hir amser wedi'n. Ni wyddwn i ddim o ystyr y geiriau, a chredaf na wyddai Benni ddim o ystyr eu hanner.

* * * * * *

Heddyw adgofiant i mi y stori am y doniol Deon Swift a'r modd y darfu iddo ef osod clap ar dafod hen wreigan dafodrydd yn Dublin. Yr oedd hi yn amlwg yn hyddysg iawn yn nhafodiaith *Billingsgate*, a phentyrrai ei geiriau duaf ar ei draws, er difyrrwch yn fwy na dim arall iddo. Penderfynnodd yn lan ei gwynebu, a dygodd ei gyflegrau newydd i'r maes *newydd* yn y defnydd a wnaeth y Deon o honynt. Yr oeddynt mewn gwir mor hen ag Euclid. Tra'r oedd yr hen wreigan yn taranu, yr oedd y Deon yn dawel a digyffro yn gollwng ei fwledi un ar ol y llall, a phob bwled yn taro'r *bull's eye*. "*You are a parallelogram, you are an isosceles, an old rhomboid*," *&c.* Yr oeddent yn ofnadwy yn ei golwg, yn fwy nag a allai oddef. Sylwyd ei bod yn raddol yn gostwng ei llais, ac yn y man hi a ddistawodd ac a ffodd.

* * * * * *

Mae yr ysfa i ddadleu yn rhai dynion yn fwy na'u gilydd, ac yn rhy fynych ni allant oddef gwrthwynebiad. Gyrr hynny hwy yn aml i natur ddrwg ac i ddweyd geiriau cas. Barn isel sy gan Charles Ashton yn ei "Hanes Llenyddiaeth Cymru" am yr holl ddadleuon—ar Fedydd, ar Galfiniaeth ac Arminiaeth. Dywed fod enwau rhai o'r llyfrau yn warth i'r ysgrifennwyr. Er enghraifft—Ynfydrwydd Credo'r Arminiaid, Yr Ysgerbwd Arminaidd. Dywed fod "dadleuon duwinyddol can hyned a Christnogaeth; ond nid yw y pynciau mewn dadl ddim eto wedi eu penderfynnu. Credwn na fu mwy o ddadleu yn unrhyw wlad nag a fu yn Nghymru ar ddechreu y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac na fu yn unrhyw wlad fwy o edliwiaeth rhwng y dadleuwyr a'u gilydd. Gwyddom yr haera rhai i'r dadleuon duwinyddol wneuthur llawer o les drwy beri ymchwiliad, &c. Wrth gwrs, y mae i bawb sydd o'r farn honno berffaith roesaw i'w crediniaeth. Ein tyb ninnau ydyw mae y dadleuon hyn wnaeth Gymru yn ddallbleidiol, yn rhagfarnllyd, yn hunandybus."

Nid yn y dadleu, fel y cyfryw, mae'r bai ond yn y dadleuwyr a'u hysbryd anffaeledig. Ni choleddant yr amcan iawn pan yn dadleu. Nid ategu syniadau personol ddylai fod mewn golwg gan y naill na'r llall, ond—cael gafael yn y gwir. Meddu'r gwir sydd yn bwysig, a'r unig beth pwysig. Wrth geisio am y gwir, a hynny yn unig, nid anodd fydd cadw undeb yr yspryd yn nghwlwm tangnefedd. Wrth ddadleu felly bydd siawns i'r ddau ddadleuwr fod ar eu hennill. Paham y rhaid i ddadleuwyr duwinyddol gwympo maes a'u gilydd? Nid yw gwyddonwyr yn gwneud hynny, gan mai cael gafael yn y gwir yw yr unig beth o bwys ganddynt. Yn yr ifanc a'r anwybodus fynychaf mae'r duedd amlycaf i ymddwyn fel un anffaeledig.

* * * * * *

Difyr yw gweld ambell i wr ifanc, ifanc, neu ambell i un nad yw yn ifanc mwy, ond eto'n hollol ddibrofiad, yn esgyn i'r pwlpud ac yn ceisio goleuo cynulleidfa ar rai o bynciau mwyaf dyrys duwinyddiaeth. Mae'n wir nad ifanc oedd Lewis Jones, na gwybodus chwaith, ond clywais na fyddai efe byth yn pregethu ar ddim llai nag un o Bum Pwnc Calfin. A dyna'r brawd J. Williams, ei hoff destynau ef y blynyddau cyntaf oedd rhai o adnodau mwyaf dyrys epistolau Paul.

Mae ffordd iawn a ffordd aniawn i drin pob pwnc. Dyddorol yw cymharu dull Joshua Thomas a dull y Dr. Thomas Rees yn traethu ar hanes crefydd. Bedyddiwr oedd y naill, Annibynnwr oedd y llall. Gellir casglu safle Joshua; fe draetha ei stori yn onest ac mewn dull didramgwydd. Nid yw yn gymaint meistr ar y pwnc cyffredin feallai ag yw'r Dr. Mae'r Dr. wedi treulio blynyddau i gasglu ei ddefnyddiau, ac y mae wedi troi allan waith a raid fod wrth sylfaen pob gwaith cyffelyb yn y dyfodol. Trueni nad allai byth anghofio Annibynnia, a'i fod yn trafferthu i'w wthio i'r ffrynt yn ddiangen ambell bryd; ond y trueni mwyaf yw ei duedd wrth son am rywun nad oedd yn un o blant Annibynnia, ei fod fel hyn a'r fel, "neu rywbeth gwaeth." Nid yw Joshua yn insultio neb fydd yn gwahaniaethu oddi wrtho; mae'r Dr. yn ymylu'n agos ar hynny.

* * * * * *

Os carai'r darllenydd wybod am y ddadl a gariwyd yn y blaen yn yr yspryd iawn, gallwn ei gyfeirio at yr un a gymerodd le rhwng Dr. Richard Price (1723–91) a Dr. Joseph Priestley (1733–1804). Gwahaniaethai'r ddau Dr. ar bwnc Materolaeth. Trinient y pwnc a'r pwnc yn unig. Parhaodd y ddadl yn hir, ond yn hollol gyfeillgar ac heb yr un gair angharedig a chas. Ni argyhoeddwyd y naill na'r llall; ond credwn i'r ddau fod ar eu hennill. Ni anghofiasant eu dyledswydd i fod yn ffyddlawn i yspryd crefydd Iesu Grist.

O'r tri pheth y geilw'r Sais yn *matter, motion, mind,* y mae mwy o reswm heddyw dros ameu'r cyntaf na'r un o'r ddau ereill. Gwyddom yr ystyr gyffredin a gysylltir a'r tri. I Priestley nid oedd Mater ond

"*attraction and repulsion;*" ac nid yw hynny yn gwahaniaethu llawer oddiwrth dyb Faraday—"*That all atoms will be found ultimately reducible to—one atom with two polarities.*" Gadawer y mater ar hynyna.

T. C. U.

## MAES Y GAD.

Nid yw helbul a thrafferth rhyfel yn gorffen ar faes y gad, yn hytrach yno y dechreuant. Mae colyn pob rhyfel yn brathu i galon y diniwed yn nghartrefi ein gwlad. Cofus gennyf weled tua dechreu 1915 ddwy ddynes yn chwilio ymhlith y clwyfedigion yn un o brif ysbytai ein gwlad am rywun a fedrai roi rhyw wybodaeth iddynt am eu brawd oedd wedi cael ei restru ymhlith y rhai "ar goll." Oddiar hynny mae'r nodiad wedi myned i filoedd o gartrefi, er gwae a phryder i geraint fod hwn a hwn wedi syrthio.

Yn wasgaredig dros hanner byd y gorwedda llawer o blant Cymru – o China draw hyd ffosydd Ffrainc. Goreura tanbeidrwydd haul y dwyrain y twmpath tywod ym Mesopotamia, a syrthia nifwl Ffrainc ar y croesbrennau fel maen marmor.

Fe all pob un o'r darllenwyr eistedd a galw i'w ddychymyg lu o gyfeillion sydd wedi sancteiddio pellafoedd y ddaear iddynt drwy fod yn orweddle i'r hyn oedd farwol o honynt. Mae eu gwynebau siriol a'u hieuenctid gobeithiol yn fyw o flaen ein llygaid megis darlun anniflanedig. Mae dolen gydiol wedi ei sicrhau rhwng pellafoedd y ddaear a'n gwlad fechan ni mewn modd mor arbennig nes y mae dwyrain a de yn cydgyfarfod, a mân ragfarnau cenedlaethol yn diflannu, a Chymru yn myned yn Gymru mwy drwy ei meibion syrthiedig. Mae gofid a phryder yn cerdded gyda chamrau breision dros fryniau a dyffrynoedd ein hanwyl wlad. Mae'r cwpan chwerw yn cynyddu yn ei chwerwder—ond, O! Gymru! beth am dy enaid? 'Rwyt yn "y dyfroedd mawr a'r tonnau," ond par dy galon i gymhell gobaith – "Dros y bryniau tywyll niwlog, yn dawel f'enaid edrych draw." Mae tant ar dy delyn wedi ei daro sydd yn cyfoethogi yr alaw a'i gydsain pruddaidd. Mae ymysgaroedd dy ddaear yn esgor ar nerth sydd yn cofleidio'r byd, a chynyrch dy ddaear yn rhoddi maeth i filiynau, a'th feibion dewr yn berl ar dy goron sydd yn disgleirio fel dinas sanctaidd dy ddelfryd. Parod yw'r gofyniad – Beth yw yr achos fod Cymru heddyw yn Gymru mwy nag erioed o'r blaen? Onid ffydd angherddol ei phobl mewn gweriniaeth a thragwyddoldeb. Yng ngwaed pob un o'r plant mae delfryd byd yn llygad treiddgar ei meddwl, a gobaith ei hefengyl wedi troi yn sicrwydd drwy ei ffydd yn yr anweledig. Mae'r wlad yn ei hadfyd wedi meddianu'r gwynfyd. Mae'r gorchudd wedi ei dynnu oddiar bethau fel yr ymddangosant, a phethau wedi dyfod yn weladwy fel ag y maent.

Nid yw'r adfyd heb ei ystyr, teimla pawb agosrwydd yr anweledig, ac y maent yn fwy parod i anturio ar linellau egwyddorion. Nid oes ond megys ennyd bach oddiar pan oedd Anghydffurfiaeth a chwstwm arferiad yn fynydd o bechod, a'r hwn oedd

ffaeledig mewn dyngarwch yn gawr o wr Duw ; ond mae'r amser wedi cyfnewid, mae egwyddor heddyw yn fwy nag arferiad, a dyngarwch yn fwy nag ymddangosiad. Mae hyawdledd yn gorfod rhoi lle i angerddoldeb, a iaith llafar yn distewi i glywed sisial cariad y galon—llai o dduwinyddiaeth a mwy o ddynoliaeth. Credaf mai dyna'r tueddiad yn meddwl Cymru'r presenol. Mae delfrydau gwerin Cymru i mi yn amgenach na'r un werin arall. Ar ol golwg agos ar fywyd gwerin, haner dwsin o werin bobl Ewrop, teimlaf anrhydedd i ymffrostio fy mod yn un o werin Cymru. Plant y werin sydd yn y Prifysgolion, plant y werin sydd yn ei phwlpudau, a phlant y werin sydd yn y Senedd. Nis gwn am un werin sydd a chyffelyb feddiant. Oni ddylai hyn daflu pelydryn o lewyrch i bob cartref sydd fel Glyn Cysgod Angeu drwy y groesbren yn Ffrainc, a'r twmpath tywod yn yr anialwch. Cofiwn fod gwaredwyr ein gwlad dan y groesbren yn Ffrainc, a gwaredwr dynoliaeth ar groesbren cyflafan y presenol, ac fe welir gwaredwr y dioddefaint yn arweiniwr i adgyfodiad bywyd gwell drwy ei bresenoldeb yn nghalon pob un sydd yn ennyn tân cariad drwy sacrament coffadwriaeth am danynt.

BEN DAVIES.

---

## DARLLEN.

Ychydig Suliau'n ol clywais bregeth ar y pwysigrwydd a'r angenrheidrwydd o ddarllen. Mae rhai pobl yn hoff iawn o feirniadu pregethau, yn wir, gallesid meddwl mai unig amcan rhai pobl wrth wrando pregeth yw ei beirniadu—maent yn gwrando er mwyn beirniadu. Nid yw yn fy mwriad i feirniadu y bregeth hon, a hyny am y rheswm fy mod o'r farn fod y beirniadu yma bob amser yn waith cynil a pheryglus.

Pe ceisiwn nodi allan ddiffygion a gwallau yn y bregeth grybwylledig, gallasai hyny dueddu i wangaloni y pregethwr, a buasai hyny yn drueni ; ar y llaw arall, pe canmolwn dipyn arni gallasai hyny beri i'r pregethwr ymfalchio ac ymchwyddo, a buasai hyny'n llawn cymaint o drueni.

Gwell genyf fi wrando pregeth na'i beirniadu, a chredaf y buasai hyny'n well i bawb, a gwyn fyd na b'ai pawb yn gwrando drostynt eu hunain yn lle gwrando dros ereill, fel y mae arfer rhai.

Yr angenrheidrwydd o ddarllen oedd pwnc y bregeth, a dyna fydd mater yr ychydig sylwadau fydd genyf finnau. Rhag i mi gamarwain y darllenydd yr wyf am roi ar ddeall iddo ar unwaith nad wyf yn cymeryd arnaf fod y sylwadau a ganlyn yn wreiddiol i mi : sylwadau wedi eu benthyca o'r bregeth grybwylledig fyddant, a phwy ŵyr nad eu benthyca o ryw fan neu fannau wnaeth y pregethwr ei hun. Pwy wna ei feio am hyny ? Onid rhan, ac feallai y rhan bwysicaf, o waith y pregethwr yw darllen a myfyrio, a chwilio am feddyliau a gwirioneddau i'w gosod gerbron ei gynulleidfa ? Rhaid fod rhywrai wedi bod yn hollol wreiddiol yn y gorffenol pell, ond fedr neb fod yn wreiddiol yn yr ystyr yna heddyw. Meddylied dyn a feddylio, dyweded a ddywedo, mae yna rywrai wedi meddwl a dyweud yr un pethau gannoedd o weithiau o'i flaen. Mae ar ben am fod yn wreiddiol ; ailddyweyd hen bethau mae pob awdwr,

a phregethwr, a siaradwr cyhoeddus bellach. Yr unig gyfle gânt i fod yn wreiddiol ydyw yn eu dull o ddyweyd y pethau. Yr un yw'r bwyd ond gall fod yna dipyn o amrywiaeth ac o wreiddioldeb yn y dulliau o'i goginio.

Y pwynt cyntaf awgrymai y bregeth i mi oedd y dylasai pawb fod yn ddarllenwyr. Mae lle i ofni mai ychydig iawn yw nifer y darllenwyr heddyw. Mae grym y bobl yn rhyw gredu na pherthyn darllen a llyfrau iddynt hwy o gwbl, a gadewir y gwaith, a gellir ychwanegu y pleser a'r mwynhad o ddarllen i'r ychydig, i ddosparthiadau neilldiol, megys pregethwyr, offeiriaid, athrawon, &c. Yn ol y bregeth hon camsyniad, a chamsyniad mawr a thruenus iawn ydyw hyn, gan y dylasai pob dyn, beth bynag ei safle a'i alwedigaeth fod yn fwy neu lai o ddarllenwr. Mae nifer y darllenwyr, fel nifer yr etholedigion, yn brin. Cymerer darllen newyddiaduron er engraifft. 'Dwn i ddim faint o brynu a darllen newyddiaduron sydd yn y trefydd y blynyddoedd cyffrous hyn. O bosibl fod yna brynu a darllen helaeth gan fod y cyfleusderau i brynu mor lluosog a rhwydd yn y trefydd, ond gwn nad oes agos y darllen ddylasai fod ar newyddiaduron mewn ardaloedd gwledig, ac yn sicr nid prinder arian nac amser sy'n cyfrif am hyn ond prinder rhywbeth arall.

Gwell gan filoedd holi hwn ac arall sy'n digwydd bod yn ddarllenwyr gweddol gyson o newyddiaduron: "Beth yw'r newyddion heddyw? Beth am y rhyfel heddyw?" na mynd i'r draul o brynu papur er cael gweld a darllen drostynt eu hunain. Os yw'r amgylchiadau tymhorol yn caniatau hyny dylasai rhyw bapur dyddiol sylweddol gael drws agored i bob cartref yn y wlad, yn enwedig i bob cartref lle mae pobl ieuainc a phlant mewn oedran i ddarllen. Beth yw y cyffro mawr sydd heddyw megys ar syfrdanu meddwl a pharlysu calon a gobeithion y byd? A defnyddio iaith ffigyrol, ta beth arall ydyw, gellir dyweyd mai ymdrech yw i garthu a bwrw allan o'r byd yspryd-ion aflan—yspryd aflan gormes, yspryd aflan penarglwyddiaeth yr ychydig, a'r arch-ysbryd aflan sydd wedi gwneud "*Might is right*" yn arwyddair iddo ei hun. Mor bell ag y mae y wlad hon a'i Chyngreiriaid yn mynd dyna'r amcan, bwrw allan ysprydion aflan er gwneud lle i ysprydion glân—ysprydion glân heddwch, a chyfiawnder, a brawdgarwch yn y byd. Dywed rhai mai "rhyfel i orffen rhyfel" yw. Gobeithio mai e, ond y peth wyf am gyfeirio ato yw ei bod yn drueni fod neb yn gadael i'r ymdrech ddifrifol, bydgynhyrfiol yma i fynd heibio heb sylwi yn fanwl arni drwy gyfrwng rhyw newyddiadur sylweddol neu gilydd.

Os yw darllenwyr newyddiaduron yn brin ai nid y perygl yw fod nifer darllenwyr llyfrau da ac adeiladol yn llai fyth? Cynifer o dai dilyfrau sydd yn y wlad yma. Mae hynny'n drueni ac yn golled. Meddai y pregethwr hwn, "Fel ag y mae eisiau'r dorth yn y tŷ i dorri newyn a phorthi y corff, felly mae eisiau'r llyfr yn y tŷ i dorri newyn a phorthi y meddwl." 'Does dim mwy o hawl gan ddyn i newynu ei feddwl nag sydd ganddo i newynu ei gorff. Rhaid i'r corff wrth fara a lluniaeth; hebddo nis gall fodoli a thyfu. Rhaid i'r meddwl hefyd wrth luniaeth, a thorth i'r meddwl yw llyfr da, ac wrth fwyta o honi galluogir ef i fagu nerth ac iechyd.

Pe gofynem i lawer heddyw paham na fuasent yn darllen weithiau eu hesgus fyddai prinder amser a phrinder arian. Meddai y pregethwr hwn, "Mae'n rhaid chwilio am amser, ac mae'n rhaid chwilio'r arian. Wnawn ni ddim rhoi'r amser a'r arian i gyd i'r corff, a dim i'r meddwl, oes bossibl?" Ai diffyg amser ac arian sy'n cyfrif am y ffaith fod mor ychydig o ddarllen, ynte? Nage, ond diffyg arferiad—y ffaith druenus fod dynion wedi mynd i gredu na pherthyn llyfrau a darllen iddynt hwy, mai rhywbeth i'r ychydig ydynt. Amser? Beth am yr oriau hamddenol wedi bydd gwaith y dydd drosodd?

Mae miliynau o'r oriau hyn yn cael eu gwario mewn gwagedd a segurdod yn y wlad yma bob wythnos. Arian? mae canoedd o filiynau o arian yn cael eu gwario ar oferedd a phethau diangenrhaid yn y wlad yma bob blwyddyn. Mae yma ddigon o amser a digon o arian, y peth sydd yn eisiau yw cael gan bobl i gredu fod darllen, fod porthi y meddwl yn ddyledswydd bendant arnynt.

Pwynt arall awgrymodd y bregeth i mi. Wnaf i ddim ond ei nodi rhag i'r darllenydd flino, oedd bod eisiau bod yn ofalus beth i'w ddarllen. Yr un faint o amser yn fynych sy'n eisiau i ddarllen llyfr sylweddol ac adeiladol—llyfr a'i lond o bethau da ag sy'n eisiau i ddarllen llyfr diddim a gwaeth na diddim, a pheth arall gellir prynu llawer o lyfrau goreu'r byd am yr un faint o arian—yn fynych am lai na'r llyfrau eraill yma.

Byddwn ofalus, ynte, beth i'w ddarllen. Darllenwn y goreu o hyd. Darllenwn y llyfrau hyny sydd wedi dal prawf y blynyddoedd a'r canrifoedd; llyfrau fedrant ddwyn mwynhad a phleser iachus i ni, ac yn bennaf, y llyfrau hyny fyddant yn help i gryfhau ac eangu ein meddyliau ac i ddyfnhau a chyfoethogi ein holl bersonoliaeth.

A. B.

---

## S. O. S.

Y mae galar ar y mor ac y mae perigl tan wyneb tonn. Bob munud awr y mae'r llong mewn perigl. Heria'r gwynt, y tonnau a'r creigiau, ond y mae'r *submarine* yn ormod iddi. Edrychwch arni'n rhwygo'r tonnau, ond ar amrantiad daw yna ffrwydriad. Ymhell mae tir: agos yw'r dyfrllyd fedd. Erys gobaith yn y *wireless operator*. Fflachia'r alwad am gymorth tros y moroedd. A ddaw ymwared mewn pryd? Nid yw'r gri a glyw ein llongau amgen na phennawd hyn o ysgrif—S.O.S.

Rhywbeth tebig yr ymddengys pethau i mi heddyw. Darllenais 'I Appeal Unto Cæsar,' ac wylais. Darllenais y papur newydd yr wythnos ddiweddaf, a daeth gwrid cywilydd i'm hwyneb, a dyna yw'm hysgrif,—llef o'r dyfnder—arwydd o berigl—rhyw S.O.S. foesol at ddynoliaeth.

* * * * * *

Yng ngeiriau Arlywydd Wilson, "rhyfel y bobloedd yw'r presennol am ryddid, am gyfiawnder, ac am hunan-lywodraethu; rhyfel i wneuthur y byd yn ddiogel i'r bobl sydd yn byw ynddo." Dyna ddelfryd Prydain ym mhoethder y tân a'r dioddef. Dyna'i delfryd yn 1914! Dyna'i delfryd heddyw, pan mae rhyw wyth miliwn o fechgyn ieuainc "Greater Britain" wedi ateb yr alwad, gan gynnyg eu hunain yn aberth tros ryddid a thros ddynoliaeth. Ond yn ein gwlad y mae yna nifer o bersonau yn credu gyda Spinoza y medrir gorchfygu câs gan gariad, ac edrychant ar ryfel fel llofruddiaeth, ac ar wasanaeth milwrol fel ymarfer mewn drwg bwriadol. Yn eu plith ceir y Crynwyr, y Plymouth Brethren, y Christadelphians, ac ereill ymhlith yr enwadau. (Gwyr y mwyafrif ohonom am ddylanwad y Rwsiad enwog, Tolstoy, a'i ysgrifeniadau ar feddwl yn ein gwlad.) Nid *shirkers* mohonynt, ond dynion yn teimlo na fedrant ladd. Yn hytrach na hyn, gwell

ganddynt ddioddef pob gwawd a gwarth, pob erlid a dioddef: gwell ganddynt farw yn gyntaf. Hwyrach na fedr llu mo'u deall, ond medrwn oll barchu *cydwybod*, ond beth yw?

"Llais cymdeithas yn siarad ynom," medd rhywun, a thrwy hynny, gwahaniaetha o genedl i genedl ac o oes i oes, ond ni fedrir derbyn hyn neu buasai pob dyn yn filwr gwirfoddol heddyw oherwydd y mae llais cymdeithas yn weddol groyw. Dyna yw y *Conscientious Objector*, dyn yn dioddef oherwydd na dderbyn lais cymdeithas fel llais cydwybod. Y mae'n gwrthod derbyn safonau cymdeithas. Y mae'n fodlon wynebu angau oherwydd fod y llais distaw main yn croesddywedyd llais cymdeithas. I mi, llais Duw yw cydwybod – llais goreu dyn ei hunan, a chofier medr y milwr dewr yn ogystal a'r *Conscientious Objector* tawel fod yn gydwybodol. Cydwybod felly sy'n goleuo dyn parthed yr *amcan* trwy yr hwn y dylasai weithredu — yr *ysbryd* a ddylasai ein harwain. Ond nid fy amcan yw ceisio cymryd ochr. Y mae gormod o'm ceraint a'm cyfeillion yn y ffosydd gwaedlyd draw, a llu wedi cael lle bedd yng ngwlad yr estron. Digon i mi yw geiriau y Cyn-Brif Weinidog – "Dylasai pob un sydd a'i wrthwynebiad i wasanaeth milwrol *(active)* yn sylfaenedig ar argyhoeddiad gonest fod yn alluog – ac fe fydd yn alluog i fanteisio ar esgusodion y mae'r Senedd wedi ddarparu." Dyna yw cyfraith y wlad heddyw.

Nid anniddorol yw sylwi ychydig ar hanes. Meddyliwch am y Crynwyr, yn amser Cromwell a Siarl yr Ail, yn dioddef oherwydd credu ohonynt mai gweithred o eilunaddoliaeth oedd dynoethi y pen yn y llys. Chwarddwn at ei symlrwydd heddyw, ond cofier dynion o'r stamp yma sydd wedi gwneuthur Prydain yr hyn ydyw. Dewch yn ol i fore hanes a cheir y cynygid perffaith ryddid i'r Cristionogion bore ar yr amod eu bod yn ymgrymu i ddelw yr Ymerawdwr. Trown i hanes rhyddid cydwybod. Pwy nad yw wedi wylo dagrau o feddwl am ddioddef y *Lollards* a'r *Scrooby Separatists*. Beth am Wycliff, Huss, Jerome, Savonarola, Luther, a llu ereill?

Ofer ydyw holi, ond gallwn ddywedyd mai hwn yw'r egwyddor Biwritanaidd. Galwai'r Cyfamodwyr hi '*The Crown Rights of Jesus Christ*,' a da oedd gennyf weled yr Arglwydd Hugh Cecil yn ei hamddiffyn mor groyw. Dywedir fod gan y wladwriaeth hawl ar wasanaeth pob dinesydd, ond maentumia yr Arglwydd Hugh Cecil nad oedd goruchafiaeth y wladwriaeth ond un o'r rhesymau a ddefnyddir gan Ganghellydd yr Almaen i gyfreithloni ei hymosodiad ar Felgium. Ceir yr athrawiaeth hon yn nhudalennau Bernhardi, "Dyledswydd uchaf y wladwriaeth yw ychwanegu at ei nerth." "Nid yw iawnderau cydnabyddedig byth yn iawnderau diamodol. . . . Y mae amgylchiadau pryd na b'ont yn cyfateb i wirionedd pethau fel y maent; pryd hwnnw ymddengys fod eu torri yn weithred foesol gyfiawn."

Dyna yw Prwsianism – y Cwltwr y ceir cymaint sôn am dano. "I bobl Gristionogol," medd Arglwydd Hugh Cecil, "ni allasai fod yna gyfraith uwch nag eiddo eu cydwybodau eu hunain, a thrwy gadw i'r wladwriaeth oruchafiaeth yn nheyrnas cydwybod, gwahenid oddiwrth y gyfundrefn Gristionogol yn gyfangwbl. Ni fedrant hwy ond dal fod yn rhaid i'r wladwriaeth gydffurfio a'r gyfraith uwch. Ni ddylesid gorfodi cydwybod."

Dyna yw llais lliaws yn ein gwlad ni heddyw, ond nid hynyna a'm cyffrodd. Y mae darllenwyr YR YMOFYNYDD yn adnabod Dr. D. J. Davies, a sicr yw na bu un mwy gonest ei argyhoeddiad erioed. Nid wyf fi yn abl i farnu cymhwyster y doethwr fel athraw, ond gallesid meddwl, o ddarllen, nad oes un athraw cymwys yn Ysgol Sir Aberystwyth. Nid wyf yn proffesu ar y llaw arall fod Undodiaid Ceredigion

yn cydolygu ag ef. Rhwydd y medraf ddywedyd eu bod mor wladgarol a theyrngarol ag unrhyw ddosbarth, ond y mae'r Undodwr yn anadlu rhyddid cydwybod gydag awel y bore, ac yn ei sugno i'w gyfansoddiad o fron ei fam. Cofir yn hir am frwydr '68. Onid brwydr am ryddid ydoedd? Cofus gennyf ddarllen mai yr hyn sydd eisiau ar Brydain heddyw yw y rhinweddau moesol oedd gennym ar ddechreu'r rhyfel. Beth bynnag am hyn, ni cheir mohonynt trwy dreisio cydwybod. Yng ngeiriau Chambers :— "*Liberty of conscience is rightly considered the most indispensable of liberties.*" Da gennyf weled mai nid cwestiwn o enwad na phlaid mohoni ond cwestiwn o gydwybod—cwestiwn o'r awdurdod uchaf, a sicr nid oes hawl i erlid dyn pan fyddo cyfraith a gwladwriaeth wedi ei esgusodi! Y mae yna y fath beth yn bod a chydwybod cymdeithas—*social conscience*, ac onid hon a ysgubodd ymaith gaethwasiaeth o'n byd, ac hon yn y diwedd a ysguba ymaith Ryfel a phob creulonder, ac at Gydwybod Cymdeithas heddyw yr wyf innau yn anfon y neges tros ryddid Cydwybod. Beth yw'r neges? Dim amgen na neges y llong ar y mor mewn cyfyngder—S.O.S. Pan fyddo ein bechgyn yn marw er gosod Trais a Chwltwr i lawr ar gyfandir Ewrop, na fydded i ni ei osod i fyny yng Nghymru oherwydd dallineb ei gefnogwyr i'w liwiau priodol, nac oherwydd un rheswm arall, ond bydded i ni barchu cydwybod fel llais Duw yn enaid dyn, gan gofio gyda Napoleon "*that conscience is the inviolable asylum of the liberty of man.*"

S.O.S.

---

## ADOLYGIAD.

"THE SPIRITUAL ASCENT OF MAN." W. Tudor Jones, D. Phil. (University of London Press. 5/- net.)

Ar gais Golygydd prysur yr YMOFYNYDD addewais ysgrifenu gair o adolygiad ar y llyfr uchod. Mae'r awdur yn adnabyddus bellach i gylch eang o ddarllenwyr fel gweinidog galluog gyda'r Enwad Undodaidd Saesneg ym Mryste, ac fel Cymro ddeil ei restru yn y dosbarth blaenaf o athronwyr y dydd. Daeth i amlygrwydd mawr ynglyn a'i waith fel Cyfieithydd a Dehonglydd o Athroniaeth Eucken, a theg fuasai cofio heddyw mai ag athroniaeth yr Almaenwr y mae a fynno ef, ac nid a'i safle ynglyn a'r rhyfel presennol. Y mae'r awdur wedi bod yn ffodus iawn i gael gan "Feistr Coleg Balliol" (Master of Balliol) i ysgrifenu Rhagarweiniad i'w lyfr, yr hwn a'i cymeradwya fel traethawd clir, diddorol, hyd yn oed i'r dyn cyffredin ar bwnc pur anhawdd. "Though written by a deeply real student of Philosophy, it will be found intelligible, and even agreeably readable." Mae teitl y llyfr yn ennyn ein diddordeb ar unwaith, ac yn addaw ameuthyn i'r meddwl, pan y gorfodir ef yn yr argyfwng presennol i dalu cymaint sylw i gyfalaf materol gwlad a chenedl. Pan y mae llu y Syriaid yn ceisio ein hamgylchynu, a meirch a cherbydau rhyfel yn tynnu ein sylw fel gwas Eliseus gynt, hyfryd yw cael llyfr fel hwn i'n hadgofio o fyd a phwerau uwch, ac wrth ei ddarllen daw gweddi'r prophwyd hwnw

dros y llanc yn un amserol yn ein golwg—"O ! Arglwydd, agor atolwg ei lygaid ef, fel y gwelo." Amcan y llyfr yw ceisio profi fod pob gwyddor ond ei dilyn yn ddigon pell yn hawlio sylfaen amgenach i ddehongli bywyd na'r un fatterol. Wele ddyfyniad o'i bennod gyntaf—"It will be shown in the succeeding chapters that the death of materialism has actually taken place, especially in so far as it is no longer a sufficient explanation of the origin of life, mind and spirit." (Tud. 6).

Neges yr awdur drwy y llyfr yw ceisio dangos nad yw y byd materol gyda'i holl ffurfiau ar fywyd a'i holl wyddorau ond ymylon gwisg y byd mawr ysprydol sydd tu ol i'r oll. Llwydda i wneud hyn yn rhyfeddol o glir, ac ar ei ymdaith dengys wybodaeth eang o'i bwnc, a chyfarwydd-der o'r dadblygiad gwyddonol yn mhob cylch. Fel engraifft o'r olaf y mae'n trin y ddamcaniaeth honno sydd yn ceisio gwahaniaethu rhwng Ynni a Mater (Matter and Energy). Ceir ganddo ar ddiwedd y llyfr ddwy bennod ddiddorol ar y Ddirnadaeth o Dduw (Conception of God), a Chrefydd a Christionogaeth (Religion & Christianity), a llwydda yn y ddwy hyn i gadw at ei brif bwnc heb grwydro ar ol diwinyddiaeth ddadleugar gan dywys yr efrydydd at y gwahaniaeth rhwng hanfodion crefydd a'i gwisg. Gallasem ddifynu o lawer pennod a thudalen, ond cam fuasai hynny a'r awdur ac a'r llyfr fel cyfanwaith. Cawsom flas wrth ei ddarllen, a chynghorwn ddarllenwyr yr YMOFYNYDD i'w sicrhau a'i darllen yn ddioed, a bydd tâl i'w llafur.

B. D.

*Llandyssul.*

---

## JERUSALEM DAN FANER NEWYDD.

Ar y cyfan tipyn yn gymysg yw ein teimladau pan yn darllen fod y rhyfel wedi estyn ei chrafangau dinystriol i wlad Canaan—sanctaidd dir Palestina, gwlad y Beibl, gwlad y Patriarchiaid a'r Proffwydi, yr Apostolion a'u Hathraw bendigedig, yr hwn a deithiodd ei bryniau a'i dyffrynoedd i draethu ei neges hedd i'w phobl. Pan yn darllen enwau'r trefydd a'r pentrefydd, a'r brwydro a'r lladd sydd yn cymeryd lle yno, ni allwn ni ddim llai na theimlo'n drist yn rhyw ystyr. Ar yr un pryd teimlwn mai'r canlyniad fydd i'r wlad basio allan o ddwylaw gormes y Twrc i ddwylaw gallu y gellir dysgwyl i'r holl drigolion gael mwynhau mwy o ryddid a chwareu teg.

Darllener yr enwau—Beersheba, Gaza, &c., a cheisier galw i gof rai o'r digwyddiadau a gymerasant le ynddynt—Genesis 21 : 31, &c. ; 10 : 19, &c. Ond rhag inni anghofio, â Jerusalem mae a fynom yn ein llith bresennol—Jerusalem, neu Caersalem, Dinas Hedd. Mor groes yw swn yr enw i'r digwyddiadau a gymerant le yn ei chymdogaeth y dyddiau presennol. Saif Caersalem ar bedwar o fryniau—Seion, Acra, Besetha a Moriah, a rhanant y ddinas i dair rhan. Mae pen Moriah 2,800 o droeddfeddi uwchlaw'r môr, ac yn naturiol gellir gweld yn mhell oddiar ei chopa, ond nid mor bell ag yr awgrymir yn yr hen emyn :

"O fryniau Caersalem ceir gweled
Holl daith yr anialwch i gyd," &c.

Yr oedd yn llawenydd genyf ddarllen i'r ddinas roddi i fyny – surrendro i General Allenby, Rhagfyr 9, 1917, yn dawel a didwrw, heb achosi dinystr ar ddim. Mae Jerusalem, mewn ystyr, yn ddinas gysegredig yn ngolwg Iddew a Christion, a Mohametan.

Ar ol saith cant o flynyddau mae baner y Crescent*, wedi gorfod rhoi lle eto i Faner y Groes – baner gormes wedi rhoi lle i faner rhyddid. Perthyn i'r amgylchiad arwyddocâd pwysig, ac yn ddiameu deffry deimladau ò obaith ac o ddysgwyliad dysglaer yn mynwes yr Iddew. Wrth gwrs, fe all tro ar fyd gymryd lle, ond y mae genym le cryf i obeithio na welir adferiad y ddinas byth mwy i ddwylaw y Twrc. Tymhestlog iawn yw ei hanes wedi bod yn ystod saith can mlynedd ei lywodraeth ef; ac eto er gwaethaf cythrwfl, ac anwybodaeth, a nodweddion trallodus y bobl, a rheolaeth y Twrc, rhaid addef fod Jerusalem wedi bod y ddinas fwyaf cosmopolitaidd ar wyneb y ddaear. Mae wedi bod yn fan cyfarfod ac mewn ffordd yn brif ddinas tair crefydd fawr un-dduwiaethol y byd – Iddewaeth, Cristnogaeth, Mohametaniaeth. Fe ddylid cofio nad yw Mohametaniaeth a Thyrciaeth ddim yn gyfystyr. Er fod pob Twrc yn Fohametan, nid yw pob Mohametan yn Dwrc. Y Twrc oedd yn llywodraethu yn Jerusalem, ac yn ei law ef oedd yr awdurdod i adferu heddwch pan fyddai'r Groegwr a'r Rhufeiniwr, hyny yw, pan fyddai'r cristion o Eglwys Groeg a'r cristion o Eglwys Rhufain yn cwympo maes a'u gilydd.

Gellir edrych ar Fohametaniaeth fel yn rhyw ystyr yn gynnyrch Iddewaeth a Christnogaeth, ac fel y cyfryw mae wedi bod yn foddion i drawsnewid a phuro llawer ar amlddduwiaeth Arabia. Ar y cyfan mae'r Crescent, a'r Groes, a Seren Israel wedi chwifio mewn heddwch uwchben Jerusalem am genedlaethau lawer. Yr oedd y troseddau a gymerasant le yn erbyn dynoliaeth yn tarddu yn bennaf oddiar achosion darbodol (*economic*), sosialyddol a gwleidyddol, yn fwy nag oddiar sel grefyddol a chulni duwinyddol.

Fe ddisgwylir gan rai mai Syria yn y dyfodol agos fydd maes brwydro newydd gweriniaeth. Tybiant fod Monarchiaeth yr Asia Orllewinol wedi rhedeg i'r pen; fod Llywodraeth Unbenaethol wedi dirywio i benwendid; ac fod byd Canoldirol Dwyreiniol yr ugeinfed ganrif yn hawlio rhyw fath o Gyngreiriaeth neu Ffederasiwn.

Gall un o ddau freuddwyd ddod i ben. Fe geir dau ddelfryd yn ymdrechu am y feistrolaeth—un am weriniaeth Iddewig, adferiad Palestina i ddisgynyddion y brenin Dafydd a chyflawniad breuddwyd Messeianaidd hir-oediedig y Proffwydi, ac Undduwiaeth y Psalmau, y rhai ydynt wedi eu trwytho ag uchelgais gwleidyddol a gobeithion daearol.

Y breuddwyd arall am fywyd gwladfaol y mae, dan nawdd Prydain. Pe gellid sylweddoli yn Asia Leiaf ac yn Assyria yr hyn a welir wedi ei orphen yn Canada ac Awstralia, fe geid gweld Prydain yn cychwyn ar yrfa newydd ac ardderchog iawn. Yn y gwladfaoedd crybwylliedig y mae Ymreolaeth gyflawn mewn gweithrediad, a gweriniaethau wedi eu sefydlu gyda chydsyniad a chydweithrediad Prydain. Trueni meddwl fod stori wahanol yn wir am lywodraeth Prydain yn India. Yno mae'r cais wedi ei wneud ar raddfa eang i drefnu tynged lluoedd aruthrol o bobl drwy awdurdod allanol a deddfwriaeth dramorol, ac fel y gellid disgwyl mae'r canlyniad wedi bod yn bopeth ond hapus.

Ni waeth pa faner fydd yn chwifio uwch Teml Jerusalem, mae heddwch dyfodol a llwyddiant Syria yn hawlio rhyw fath o Ymreolaeth (*Home Rule*).

---

* Y "Crescent": llun banner lleuad yw'r arwydd ar Faner y Twrc.

Mae'r *Home Rule* tlotaf yn well i unrhyw bobl na'r llywodraeth dramorol o'r fath ddoethaf. Dichon mai da fydd i Armeniad a Syriad ac Iddew aros yn amyneddgar hyd derfyn y rhyfel. Nad pa fodd y setlir, nad pwy fydd orchfygol, ein dymuniad yw ar fod y bobl hyn, pobl hanner y ffordd rhwng Ewrop ac India, pobl nad ydynt nag Aryaidd na Semitaidd, ond math o gymysg o'r ddau, yn cael yr hawl i ffurfio eu tynged eu hunain drwy lywodraeth gartrefol, Ymreolaeth, yn dal perthynas ac o dan nawdd ac amddiffyniad y Gallu llywodraethol.

Gall Jerusalem fod yn Ddinas Sanctaidd newydd eto, yn fan cysegredig, lle bydd traed pererinol Iddew a Christion a Mohametan yn parhau i droi. Amddiffynnir defosiwn gan Ryddid. Dwysheir gweithfawrogiad y gorffennol gan ryddid y presennol. Gofynnir heddyw am ryw fath o weriniaeth gan drigolion Syria a'chan weddian Jerusalem.

U.(C.)

## PRIODAS.

CHWEFROR 4, yng Nghapel y Tabernacl, Hwlffordd, Lieut. T. Walter Edwards, Manchester Regiment, a Esther Myfanwy, ail ferch Mr. a Mrs. George Thomas, Prendergast, Hwlffordd (gynt o Gwrtnewydd).

## MANION AC HANESION.

RHAGLEN CYMANFA GERDDOROL UNDODIAID CEREDIGION.—Mae y rhaglen hon bellach yn barod. Ymgymerodd y pwyllgor ag anturiaeth newydd eleni, sef dwyn allan raglen fydd yn ddigon ar gyfer tair Cymanfa yn olynol. Credwn y bydd eu gwaith yn cymeradwyo ei hunan i holl gylch yr eglwysi. Rhwng yr amlen y mae yn 100 tudalen, yn cynnwys 83 o donau—14 ohonynt yn donau y plant—a 154 o emynau. Y mae yr oll o'r gwaith wedi ei droi allan yn lân a destlus, o Swyddfa YR YMOFYNYDD. Ei bris ydyw 9c. Anfoner archebion am gopiau i'r ysgrifennydd, Mr. T. G. Thomas, Crugeryr Factory, Talgarreg, Llandyssul. Er mwyn cyfarfod â chost yr argraffu, dymunir ar i bob eglwys i dalu am nifer arbennig o gopiau wrth ddanfon am danynt, fel ag i ysgafnhau gofynion ariannol y pwyllgor.

CAPELYBRYN.—Mae yr eglwys hon wedi anfon calennig i'r milwyr a berthyn iddi, pa rai sydd yn rhifo 24.

CAPELYGROES.—Nos Fercher, y 13eg cynfisol, cynhaliwyd cyngherdd croesaw i'r Milwr Evan Evans, Pwllglas, ar ei ymweliad â'i gartref a'r gymydogaeth. Clwyfwyd ef mewn brwydr ym mis Hydref diweddaf, ac oddiar hynny y mae wedi bod yn yr Ysbytty yn Lerpwl, ac y mae ar ei ffordd i adferiad llwyr. Ar

derfyn ei wyliau dychwelodd i'r Ysbytty. Ar ran y gynulleidfa, cyflwynodd Gweinidog y lle iddo anrheg, fel arwydd o'u teimlad da tuag ato.—Nos Fercher, yr 20fed, cawd cyfarfod arall o'r un natur i roesawu'r Sapper Watkin Davies, Blaencruser, a'r Corpl. D. Williams, Brynderw. Y mae'r cyntaf wedi cael rhyddhad, ond ar ei wyliau yr oedd yr ail. Cyflwynwyd iddynt hwythau anrhegion ar ran y gynulleidfa. Llywyddwyd gan Mrs. Hughes, Neuadd, yr hon hefyd a gyflwynodd yr anrhegion. Arweiniwyd y ddau gyfarfod yn fedrus gan Mr. Jones, ysgolfeistr Llanwnen. Dechreuwyd a diweddwyd drwy ganu'r anthemau cenedlaethol.

CEFNCOED.—Nos cyn Calan, cynhaliwyd Gwyl Dê blynyddol yr Ysgol Sabbothol. Yr oedd rhai yn ameu y doethineb o gynnal gwyl o'r fath ar hyn o bryd, ac hefyd teimlid mai teilwng oedd rhoddi rhywbeth i'r plant fel cydnabyddiaeth am eu ffyddlondeb ar hyd y flwyddyn. Ag ystyried yr amgylchiadau, trodd yr wyl allan yn hynod o lwyddianus. Wedi y tê, cafwyd cwrdd cystadleuol ac adloniadol, dan arweinyddiaeth Mr. Lewis Edwards, arolygydd yr Ysgol Sul. Beirniadwyd y canu gan Mr. William Morris, a'r lenyddiaeth gan Mr. Cledwyn Davies Os y teimlwyd fod y rhyfel wedi gwneud ei ôl ar y bwrdd tê, nid felly ar dalentau y plant. Mwynhawyd y cwrdd hwn i'r eithaf gan dy gorlawn o wrandawyr.—Nos Fawrth, y 5ed o Chwefror, cawsom y fraint a'r pleser o wrandaw ar y Parch. G. Coverdale Sharpe, o Wood Green, Llundain, yn pregethu. Yr oedd Mr. Sharpe wedi cael ei anfon fel un o gynrychiolwyr y B. & F.U.A. i gyfarfod y Gymdeithas Undodaidd De-Dwyreiniol Cymru, a chan fanteisio ar ei ymweliad i Ddeheudir Cymru, trefnwyd iddo roddi gwasanaeth yng Nghefncoed ynghyd a lleoedd ereill. Teimlir yn wir ddiolchgar iddo am ei wasanaeth ac am ei bregeth rymus. A sicr yw y saif ei ddylanwad yn arogl peraidd yn ein cymydogaeth am hir amser.

HEN-DY-CWRDD, ABERDAR.—Bu yr eglwys uchod wrthi yn brysur yr wythnosau diweddaf yma, yn dangos mewn modd sylweddol ei gwerthfawrogiad o dri o'i bechgyn oedd wedi dod yn ol am dro o faes y gad. Yn gyntaf, cynhaliwyd cyfarfod i roesawu Sergt. T. J. Lewis (mab Mr. Lewis Lewis, Ty'r Capel). Anrhegwyd y Sergeant ar ran yr eglwys â rhodd gan y chwaer ffyddlon, Mrs. Catherine Phillips. Diolchodd yntau mewn modd hapus iawn. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parch. E. R. Dennis. Eto, ar nos Lun, Rhag. 17, 1917, cafwyd cyfleusdra i roesawu Sapper Tom Evans. Cawsom gyfarfod hwylus iawn eto dan lywyddiaeth ein parchus weinidog, a chyflwynwyd iddo yntau anrheg ar ran yr eglwys.—Yr oeddem, fel arfer, wedi gwneud trefniadau i gynnal cyfarfod noson olaf y flwyddyn, a daeth y newydd y byddai un o'n ffyddloniaid yn debyg o gyrraedd adref o faes y gad erbyn y noson honno, a hawdd oedd canfod balchder y cyfeillion oedd wedi dyfod ynghyd pan ddaeth y newydd fod Private Richard Jones wedi cyrraedd, ac y buasem yn cael y fraint o'i groesawu megis rhwng dwy flwyddyn. Yr oedd y noson honno hefyd wedi ei drefnu i wobrwyo y plant am fynychu yr Ysgol Sul yn ystod y flwyddyn. Cafwyd cyfarfod cyhoeddus ar ol cwpanaid o dê a bara brith. Digwyddiad hapus y noson yma oedd fod Sergeant Lewis wedi cael ychydig ddyddiau gartref, ac efe a lywyddodd y cyfarfod, yn cael ei gynorthwyo gan Private J. Euryn Davies. Rhoddwyd perfformiad o *Opperetta* gan y plant dan y penawd "The Doll's House Party," ac aethent drwy y gwaith yn hwylus iawn. Yr oeddent wedi cael eu dysgu gan y Parch. E. R. Dennis a Mr. John Thomas. Anrhegwyd Private Richard Jones hefyd ar ran yr eglwys gan y chwaer ffyddlon a gweithgar, Mrs. M. A. Davies, a diolchodd yntau mewn modd hapus

iawn. Dymuniad pawb i'r pedwar brawd oedd fod bendith Duw yn eu canlyn, a buan gwawried y dydd pan ddont i gyd yn ol, a therfyn wedi dod ar yr alanas ofnadwy hon, a heddwch yn teyrnasu unwaith eto ar ddaear Duw.

RHYDYGWIN. — *Cwrdd Croesaw.* —Daeth cynulleidfa y lle uchod ynghyd nos Wener, Ionawr 4ydd, i ddathlu dychweliad ei gweinidog, y Parch. D. Cellan Evans, yn ol o Ffrainc, lle bu yn gwasanaethu am bedwar mis ymhlith y milwyr, dan nawdd y Y.M.C.A. Darparwyd ymborth ar gyfer y cyfarfod gan foneddigesau yr eglwys. Cafwyd ganddynt foethau amrywiol a blasus, a mwynhaodd pawb eu hunain yn arddcrchog. Wedi hynny, cynhaliwyd cyngherdd; cadeiriwyd gan Mr. Daniel Evans, Ystrad House, ac arweiniwyd gan Mr. David Hughes, Maesffynonoer. Cafwyd datganiadau, adroddiadau, ac areithiau llongyfarchiadol gan amryw o'r gwyddfodolion. Wedi diolch am y wledd ac am eu dymuniadau da, aeth Mr. Evans ymlaen i roddi hanes ei waith yn Ffrainc. Talodd deyrnged uchel i Gymdeithas Gristionogol y Dynion Ieuainc a'u gwaith aml-ochrog. Terfynodd anerchiad grymus gan roddi pwys ar beidio anwybyddu hawliau Duw yn yr amser presenol.

PANTYDEFAID.—Cynhaliwyd dau gyfarfod yn ddiweddar i groesawu dau filwr adref o Ffrainc, ac aelodau o'r eglwys hon. Y blaenaf ydoedd William Henson, Pompren, Tregroes, a'r olaf Johnny Davies, gynt o Blaencriborfach, yn awr o Abercerdin Cottage. Cafwyd cyfarfodydd hwylus, dyddorol ac adeiladol ymhob ystyr. Cymerwyd rhan ynddynt gan fobl ieuainc yr ardal, ac y mae yn galonogol eu gweled yn cymeryd rhan mor flaenllaw yn y cyfarfodydd hyn. Anrhegwyd y ddau wron â swm sylweddol, yn arwydd o barch a dymuniadau da yr ardalwyr, a gwerthfawrogiad o'u gwasanaeth ym mheryglon y frwydr yn Fflandyrs.

BYDD o ddyddordeb i rai o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD i wybod fod yr erthygl yn rhifyn Rhagfyr, ar y Parch. T. Lloyd Jones, wedi ei gyhoeddi yn Saesneg yn "*Unity*," Chicago. Y cyfieithydd oedd y golygydd, Dr. Jenkyn Lloyd Jones. Da gennym weled fod yr hen iaith yn fyw ganddo. Nid yn aml y cyfieithir erthyglau YR YMOFYNYDD i'r Saesneg.

TREFN YR ACHUB. — Yr oedd wedi bod yn gwrando'r gweinidog bob Sul am flynyddau, ac nid oedd erioed wedi ei glywed yn egluro'r "Drefn Cadw." Ystyriai ei fod oblegid hynny wedi esgeuluso ei ddyledswydd yn ddirfawr, ac fod ganddo ef sail dda i achwyn. Yr oedd ei obaith am nefoedd wedi bod mewn perygl yn ystod y blynyddau hynny. Fel 'roedd gore'r lwc yr oedd wedi cael y peth oedd am erbyn hyn, a theimlai'n hapus iawn. Yr oedd y *passport* yn ei feddiant a'i ffordd yn rhydd bellach i'r nefoedd. Y ffaith amlwg yw, gan mai Undodwr oedd y gweinidog, nid oedd yn credu yn y *so called* "Trefn Cadw," neu'r hyn a alwai Watcyn Wyn yn "achub *by machine!*" Nid oedd y gweinidog yn credu fod y Tad Gore wedi dyfarnu holl deulu dyn i golledigaeth dragwyddol am fod Adda wedi bwyta rhan o'r afal a roddodd Efa iddo, ac y mae'n syn ganddo ddeall fod neb deallus wedi gwrando arno am flynyddau yn credu peth mor groes i addysg y Testament Newydd.

# CONGL YR AWEN.

## CHWYS.

(Buddugol. Mydroilyn, Nadolig 1917).

Llif fwria llafurwaith—ar rudd yw chwys,
Harddach yw na gemwaith ;
Ha ! Gu wlybwr ! gloew obaith
Bwyd a ddwg ef, bedydd gwaith.

CLEDLYN.

## LLYGAD Y DYDD.

Dlysyn dèl ! swyn y dolydd !—dy aur rôd
A'i rhidens lliw'r wawrddydd
Yw drych neu dorch huan-dydd,
Ddial hardd i hauł hirddydd.

CLEDLYN.

## DISGWYL.

Pan y galwaf yn y t'wyllwch
Arnat ti mewn hiraeth blin,
A oes gobaith am atebiad ?
Adsain sisial hwnt i'r ffin.

Ai rhy drwm yw'th hûn ysbrydol
Allu teimlo cur fy mron ?
Ai diystyr yw fy wylo
Yn y tragwyddolfyd llon ?

Yn dy gartref o ddistawrwydd
Deimli di fy eisiau i ?
Wyt ti'n gwybod mod i'n aros
Aros am dy gwrddyd di ?

Os rhaid goddef y distawrwydd,
Ffydd yw'm hunig obaith gwyn,
A disgwyliaf dy gyfarfod,
Pan y croesaf finnau'r glyn.

AP CLEDLYN.

*Ystalyfera.*

## TI ELLI FOD YN GYMRO.

Ti elli fod yn Gymro,
A charu'r byd 'r un pryd :
A garo'r wlad a'i maco
Yn iawn, eill garu'r byd.

Nis gelli garu Cymru
Yn iawn, heb garu'r byd :
Gwladgarwch iawn sy'n tyfu
Dyngarwch iawn o hyd.

Anghofio'i bod yn Gymry
Oedd perygl Cymru Fu :
Anghofio'r byd o'u deutu
Yn awr yw perygl llu.

Gwladgarwr mwyaf hanes
Oedd fwy na'i genedl gun,
Y Galilead cynes
A elwir Mab y Dyn.

Fy ngwlad, fy ngwlad, gyr allan
I'r byd dy sain yn awr ;
Nid glo fo'th ymffrost weithian,
Ond dynion eang, mawr.

GWILI.

## BEDDARGRAFF

TAD Y PRIFWEINIDOG YN NGHLADDFA JORDENSTON, GERLLAW ABERGWAEN.

Trwm fu'r tro wywo ei wedd—gwr
O gariadus nodwedd ; [ydoedd
Anwyl i'w deulu unwedd—
Colled ei fyned i'w fedd.

PWY ?

PETHAU DA.

Fy Nhad o'r nef, O gwrando'm cri,
Un o'th eiddilaf blant wyf fi ;
O clyw fy llef a thrugarha,
A dod i mi dy bethau da.

Fe all mai'r dymestl fawr ei grym
A ddwg y pethau goreu im' ;
Hwyrach, mai drygau'r byd a wna
I f'enaid mofyn pethau da.

Nid ceisio'r wyf anrhydedd byd,
Nid gofyn wyf am gyfoeth drud ;
O llwydda f'enaid, trugarha,
A dod i mi dy bethau da.

Ffynhonnell pob daioni sy',
Ga'i fod yn agos atat Ti ?
Rho imi galon a barha
I garu dim ond pethau da.

MOELWYN.

---


# Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

CYNHELIR

## Cyfarfodydd ⊕ Chwarterol

-: YR UCHOD YNG :-

**NGHAPELYGROES**

GER LLANYBYTHER,

**Ar DDYDDIAU MAWRTH a MERCHER, EBRILL 2 a 3, 1918.**

Gwasanaeth a Dwy Bregeth nos Fawrth.

Pwyllgor y Gymdeithas a Chynhadledd bore Mercher ; testyn y Gynhadledd fydd "Yr Ysgol Sul a'i hawliau." Cyfarfodydd Pregethu nawn a hwyr.

**E. O. JENKINS,**
*Ysgrifennydd.*


*J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.*

NEW SERIES OF

# Modern Handbooks of Religion

Cr. 8vo. 256 pages. Two Shillings each net.

Volumes now ready.

**Religion as affected by Modern Science and Philosophy.** By Stanley A. Mellor, M.A., Ph.D.

**Religion in Social and National Life.** By H. D. Roberts.

**The New Testament in the Light of Modern Knowledge.** By H. Mc Lachlan, M.A., B.D.

**Communion of Man with God.** By R. Nicol Cross, M.A.

**Jesus and Christianity in the Twentieth Century.** By Alfred Hall, M.A.

**The Revelation of God in Nature and Man.** By Edgar Thackray, M.A., Ph.D.

**The Divine Element in Art and Literature.** By W. L. Schroeder, M.A.

THE LINDSEY PRESS, 5 Essex St., Strand, London, W.C.

# Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

Fruit Trees, Roses and Shrubs.

# HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

**Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.**

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

# CHANNING HOUSE.

**High School for Girls and Unitarian Boarding School**

HIGHGATE, LONDON, N.

*Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),*

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s.; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

# T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

***Flour Millers - - -***

***& Provender Millers, - - -***

***Merchants, - - - -***

***Wholesale Grocers, &c. &c.***

# The London City and Midland Bank Limited.

— ESTABLISHED 1836. —

Subscribed Capital .. £24,906,432. Paid up Capital .. £5,188,840.

Reserve Fund .. £4,342,826.

## LIABILITIES AND ASSETS, 31st DECEMBER, 1917.

| | £ | s. | d. |
|---|---|---|---|
| To Capital Paid up, viz :— | | | |
| £2 10s. 0d. per Share on 2,075,536 Shares of £12 each .. | 5,188,840 | 0 | 0 |
| ,, Reserve Fund .. .. | 4,342,826 | 0 | 0 |
| ,, Dividend payable on 1st February, 1918 .. .. .. | 350,246 | 14 | 0 |
| ,, Balance of Profit and Loss Account as below .. .. | 733,785 | 5 | 8 |
| | 10,615,697 | 19 | 8 |
| ,, Current, Deposit & other Accounts | 220,551,768 | 9 | 5 |
| ,, Acceptances on account of Customers .. .. | 8,826,865 | 17 | 6 |

| | £ | s. | d. |
|---|---|---|---|
| By Cash in hand (including Gold Coin £7,000,000) and Cash at Bank of England .. .. | 44,110,353 | 13 | 10 |
| ,, Money at Call and at Short Notice .. .. | 31,003,560 | 9 | 2 |
| ,, Investments :— | | | |
| War Loans, at cost (of which £408,418 10s. is lodged for Public and other Accounts) and other British Government Securities .. | 33,116,534 | 13 | 6 |
| Stocks, Guaranteed by the British Government, India Stocks & Indian Railway Debentures | 181,789 | 10 | 0 |
| British Railway Debenture and Preference Stocks, British Corporation Stocks .. | 1,774,673 | 4 | 2 |
| Colonial and Foreign Government Stocks & Bonds | 660,352 | 18 | 0 |
| Sundry Investment .. .. .. | 521,463 | 5 | 10 |
| ,, Bills of Exchange .. .. .. | 35,052,991 | 17 | 10 |
| | 146,421,719 | 12 | 4 |
| ,, Advances on Current and other Accounts .. | 68,510,358 | 1 | 9 |
| ,, Advances on War Loans .. .. .. | 12,645,589 | 9 | 0 |
| ,, Liabilities of Customers for Acceptances .. | 8,826,865 | 17 | 6 |
| ,, Bank Premises, at Head Office and Branches .. | 2,837,210 | 6 | 0 |
| ,, Belfast Bank Shares :— | | | |
| 49,688 £12 10 0 Old Shares £2 10 0 paid | | | |
| 148,204 £12 10 0 New Shares £2 10 0 paid | | | |
| Cost .. .. £1,225,908 0 0 | | | |
| *Less* part Premium on Shares issued .. 473,269 0 0 | | | |
| | 752,639 | 0 | 0 |